Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar ymestyn safonau'r Gymraeg

Gorffennaf 2026

1 **Crynodeb Gweithredol:** Nodyn Cyngor i Weinidogion Cymru: Ymestyn cyfundrefn safonau'r Gymraeg

1.1 Mae'r nodyn hwn yn darparu cyngor ymarferol i Weinidogion Cymru ar y camau y gellid eu cymryd i ymestyn cyfundrefn safonau'r Gymraeg i fwy o sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Mae'n nodi blaenoriaethau strategol ac yn cynnig dull gweithredu wedi'i seilio ar dystiolaeth a phrofiad gweithredol.

1.2 Mae hyn yn arbennig o amserol yng nghyd-destun yr ymrwymiad a nodwyd fel rhan o flaenoriaethau 100 diwrnod cyntaf y Llywodraeth, i gychwyn ar y gwaith o ddod â mwy o sefydliadau – yn enwedig rhai sydd ar hyn o bryd yn gweithredu o dan Gynlluniau Iaith Gymraeg – yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

Cyd-destun a'r her strategol

1.3 Dros y ddegawd diwethaf mae 142 o sefydliadau cyhoeddus wedi dod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau'r Gymraeg, gyda 33 o sefydliadau ychwanegol y bwriedir iddynt ddod o dan y gyfundrefn safonau erbyn diwedd Mawrth 2027.

1.4 Mae profiad o weithredu safonau wedi dangos eu bod yn darparu fframwaith clir, cyson a gorfodadwy ar gyfer sicrhau gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel. Er bod y mwyafrif o'r sefydliadau a enwir yn Atodlenni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bellach yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau, mae nifer o sefydliadau allweddol yn parhau y tu allan iddi. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau annatganoledig sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac sy'n parhau i weithredu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

1.5 Mae'r anghysondeb hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn tanseilio'r egwyddor o ddarpariaeth gyfartal. Mae tystiolaeth monitro'r Comisiynydd yn dangos nad yw gwasanaethau'r sefydliadau hyn ar gael yn Gymraeg i'r un graddau â'r rhai a ddarperir gan sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. O ganlyniad, ceir anghysondeb yn lefel ac ansawdd darpariaeth Gymraeg ar draws y sector cyhoeddus, gan arwain at:

- anghysondeb sylweddol ym mhrofiad defnyddwyr
- llai o eglurder ynghylch hawliau iaith
- risg uwch o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Cyfle polisi a chyfeiriad strategol

1.6 Mae cyfle clir i Weinidogion Cymru adeiladu ar yr ymrwymiad gwleidyddol presennol drwy fabwysiadu rhaglen lywodraethu eglur i ymestyn y safonau yn ystod seithfed tymor y Senedd.

1.7 Gan dynnu ar dros 10 mlynedd o brofiad o weithredu'r gyfundrefn, darperir cyngor ymarferol yn y nodyn hwn ar:

- reoli'r materion sy'n ymwneud â chydsyniad Gweinidogion y Goron;
- blaenoriaethu'r sefydliadau a'r sectorau lle gellir sicrhau'r effaith fwyaf; a
- sefydlu dull gweithredu cydlynol ar gyfer llunio rheoliadau.

1.8 Yn benodol, mae'r nodyn yn cynnwys dadansoddiad o'r sefydliadau lle, yn ein barn ni, y byddai angen cydsyniad gan Ysgrifennydd Gwladol, wedi'i seilio ar gyngor cyfreithiol annibynnol (gweler Atodiad 1 o'r nodyn). Rydym hefyd yn cynghori, wrth lunio rheoliadau ar gyfer sefydliadau annatganoledig, y dylid datblygu un set o reoliadau cyffredinol a'u hymgynghori fel un.

1.9 Byddai'r dull hwn yn golygu:

- y gellid gweithredu ar sail un cyfarwyddyd polisi clir i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru, gan symleiddio'r broses ddrafftio a lleihau cymhlethdod
- y byddai un set o reoliadau yn gymwys i'r holl sefydliadau perthnasol
- y gellid cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Weinidogion y Goron, ond y byddai eu cynnwys mewn rheoliadau a gyflwynir i Senedd Cymru ar gyfer cymeradwyaeth yn ddibynnol ar sicrhau cydsyniad.

Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

1.10 Dylai'r rhaglen lywodraethu flaenoriaethu'r sefydliadau a'r sectorau canlynol, yn y drefn flaenoriaethu a amlinellir isod:

Meysydd Blaenoriaeth	Categori o Berson	Sylwebaeth
Blaenoriaeth 1	Gweinidogion y Goron	Mae'r rhain yn cynnwys adrannau gweinidogol, gyda nifer ohonynt eisoes yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg (e.e. DWP), yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau digidol trawslywodraethol (e.e. GDS). Mae Gweinidogion y Goron wedi'u henwi yn Atodlen 6 y Mesur, a byddai angen cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol er mwyn eu cynnwys mewn rheoliadau.
Blaenoriaeth 1	Adrannau anweinidogol ac asiantaethau gweithredol Llywodraeth y DU	Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau pwysig i bobl Cymru, er enghraifft Cyllid a Thollau EM (HMRC), Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Gwasanaethau Carchardai a Phrawf EM.

Blaenoriaeth 2	Sectorau a restrir eisoes yn Atodlenni'r Mesur, ond heb eu cynnwys eto	Mae hyn yn cynnwys yn bennaf y sefydliadau a restrir yn Atodlen 8 y Mesur sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus neu wasanaethau hanfodol, ond sydd fel arfer yn rhan o'r sector preifat, yn sefydliadau wedi'u rheoleiddio neu'n sefydliadau masnachol. Ymhlith y rhain mae darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, y sectorau cyfathrebu a chyfleustodau, ynghyd â gwasanaethau post.
Blaenoriaeth 3	Sectorau nad ydynt wedi eu cynnwys yn Atodlenni'r Mesur ar hyn o bryd, gan gynnwys banciau, meysydd parcio ac archfarchnadoedd.	Noder y byddai angen diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn cynnwys y rhain o fewn y gyfundrefn. Mae goblygiadau o ran adnoddau cyfreithiol ac amserlen ddeddfu'r Llywodraeth yma.

1.11 Dylid nodi y bydd ymestyn y gyfundrefn safonau i nifer uwch o sefydliadau yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran adnoddau. Wrth i fwy o sefydliadau ddod yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio, bydd angen sicrhau bod capasiti digonol ar gael i gefnogi gweithredu, monitro a gorfodi'r safonau yn effeithiol.

1.12 Bydd angen i Weinidogion Cymru, felly, ystyried yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen – gan gynnwys adnoddau rheoleiddio, cyfreithiol a gweithredol – er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn parhau'n effeithiol, yn gymesur ac yn gynaliadwy wrth iddi ehangu.

2 Y cyngor llawn: ymestyn cyfundrefn safonau'r Gymraeg

2.1 Mae adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd arnaf i gynnig cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd, neu sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. O dan y ddarpariaeth hon, rwy'n cyflwyno'r nodyn cyngor statudol hwn i amlinellu'r camau y gellid eu cymryd i ymestyn cyfundrefn safonau'r Gymraeg i fwy o sefydliadau cyhoeddus a phreifat.

3 Blaenoriaeth 1: Blaenoriaethu sefydliadau annatganoledig wrth ymestyn y gyfundrefn safonau

Ein gweledigaeth

3.1 Ni ddylai gallu person i ddefnyddio'r Gymraeg ddibynnu ar ba lywodraeth sy'n digwydd darparu gwasanaeth penodol. Lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol, dylai'r statws hwn gael ei adlewyrchu'n gyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig y gwasanaethau hynny y mae'r cyhoedd yn dibynnu fwyaf arnynt.

3.2 Ein nod felly yw symud o sefyllfa lle mae darpariaeth Gymraeg yn amrywio yn ôl sefydliad, i un lle mae hawliau iaith yn cael eu darparu ar sail fwy cyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus ni waeth pa lywodraeth sy'n gyfrifol am y gwasanaeth.

Pam blaenoriaethu sefydliadau annatganoledig?

3.3 Er bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau a enwir yn Atodlenni'r Mesur bellach yn ddarostyngedig i'r safonau, mae nifer o sefydliadau annatganoledig allweddol, yn enwedig adrannau Llywodraeth y DU a sefydliadau'r Goron, yn parhau y tu allan i'r gyfundrefn. Mae'r rhain yn:

- darparu gwasanaethau cyhoeddus craidd a hanfodol i bobl Cymru
- yn cael eu defnyddio'n rheolaidd o ddydd i ddydd gan y cyhoedd
- ac yn parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.4 Mae gwendid y gyfundrefn Cynlluniau Iaith yn cael ei amlygu gan arolygon monitro y Comisiynydd sydd wedi dangos yn gyson nad yw gwasanaethau sefydliadau annatganoledig sy'n parhau i weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg o dan y Ddeddf ar gael yn Gymraeg i'r un graddau â gwasanaethau sefydliadau sy'n gweithredu'r safonau. Mae hyn yn golygu bod unigolyn yn debygol o brofi darpariaeth Gymraeg llai cyson neu o safon is wrth ymwneud â sefydliadau sydd yn gweithredu Cynlluniau Iaith. Gall hyn gyfyngu ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg neu i drafod materion hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.5 Fel y gwelir o'r tabl isod, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan y rhai sy'n destun Cynlluniau Iaith Gymraeg o'i gymharu â'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r safonau.

	Cynlluniau iaith Gymraeg	Safonau'r Gymraeg
Gwasanaethau ffôn: delio â'r alwad yn llawn yn Gymraeg	36%	63%
Gohebiaeth Gymraeg: ateb Swyddi	72%	90%
Gwefannau: tudalennau ar gael yn Gymraeg	50%	92%
Cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac X): post ar gael yn Gymraeg	20%	95%
Dogfennau ar gael yn Gymraeg	41%	93%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	52%	88%
Hunaniaeth gorfforaethol	41%	95%
Hysbysebion swydd ar gael yn Gymraeg	26%	90%

3.6 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

- bod profiad defnyddwyr yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr gwasanaethau
- nad yw hawliau iaith yn cael eu cyflawni'n gyfartal
- nad yw'r gyfundrefn cynlluniau iaith yn darparu'r un lefel o sicrwydd neu orfodaeth.

Cyfyngiadau'r gyfundrefn bresennol

3.7 Mae'r gwahaniaeth hwn yn deillio'n uniongyrchol o nodweddion y gyfundrefn cynlluniau iaith, sef:

- ymrwymiadau hunan-benodedig gan sefydliadau, yn hytrach na gofynion cyson
- diffyg pwerau gorfodi effeithiol
- diffyg addasrwydd i batrymau gwasanaethau modern, yn enwedig gwasanaethau digidol.

3.8 Mae hyn wedi golygu bod y broses o ddrafftio a chymeradwyo cynlluniau iaith gyda rhai sefydliadau yn gallu bod yn araf a chymhleth, gyda gormod o ddibyniaeth ar ewyllys, blaenoriaethau ac amserlenni'r sefydliadau dan sylw. Gall hyn arwain at oedi ac anghysondeb yn y modd y cânt eu datblygu a'u gweithredu.

3.9 Yn ogystal â hynny, nid yw'r gyfundrefn cynlluniau iaith yn cynnwys darpariaethau cyfatebol i'r safonau gweithredu, sydd bellach yn gosod dyletswyddau clir a chyson ar sefydliadau o ran eu harferion mewnol, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a hawliau cyfatebol i weithwyr. O ganlyniad, mae diffyg fframwaith systematig ar gyfer gwreiddio'r Gymraeg o fewn gweithrediad mewnol sefydliadau o dan y drefn honno.

3.10 Mewn cyferbyniad, mae'r broses o osod safonau yn digwydd o fewn fframwaith mwy strwythuredig ac o dan reolaeth fwy uniongyrchol y Comisiynydd, gan alluogi dull mwy cyson ac effeithiol o osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus mewn modd amserol.

3.11 O ganlyniad, nid yw'r gyfundrefn cynlluniau iaith bellach yn darparu sail ddigon cadarn na chyson ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus mewn darpariaeth Gymraeg.

Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

3.12 Ni ddylai gallu person i ddefnyddio'r Gymraeg ddibynnu ar ba lywodraeth sy'n digwydd darparu gwasanaeth penodol. Lle mae gan y Gymraeg statws swyddogol, dylai'r statws hwn gael ei adlewyrchu'n gyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig y gwasanaethau hynny y mae'r cyhoedd yn dibynnu fwyaf arnynt.

3.13 Yn hytrach na dilyn proses raniadol fesul sefydliad, argymhellir mabwysiadu dull polisi integredig ar gyfer ymestyn y gyfundrefn safonau i sefydliadau annatganoledig.

3.14 Egwyddor allweddol ddylai lywio'r gwaith yw datblygu un set gyffredinol o reoliadau a fyddai, mewn egwyddor, yn gymwys i'r holl gategorïau perthnasol o bersonau o fewn cwmpas Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys y rheiny lle mae angen cydsyniad, a'r rheiny lle nad oes angen.

Cam 1: Diffinio cwmpas ar sail categorïau statudol (nid rhestrau o sefydliadau)

3.15 Argymhellir y dylid diffinio cwmpas y rheoliadau ar sail y categorïau o bersonau a nodir yn Atodlen 6, yn hytrach na rhestru sefydliadau unigol. Yn benodol:

- Gweinidogion y Goron
- Adrannau'r Llywodraeth
- Personau sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron.

3.16 Mae'r dull hwn yn gyson â'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn flaenorol mewn perthynas ag Awdurdodau Iechyd Arbennig, ac mae'n cynnig:

- mwy o hyblygrwydd polisi
- lleihad yn y baich gweinyddol o ran diweddaru rhestrau
- a fframwaith mwy cynaliadwy wrth i swyddogaethau symud rhwng sefydliadau dros amser.

Cam 2: Datblygu rheoliadau ar sail un cyfarwyddyd polisi

3.17 Dylid darparu un cyfarwyddyd polisi clir i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r rheoliadau. Dylai'r cyfarwyddyd hwn ragweld bod y rheoliadau yn:

- gymwys i'r holl gategorïau perthnasol o bersonau
- cynnwys darpariaethau y gellid eu cymhwyso'n llawn neu'n rhannol, yn dibynnu ar statws cydsyniad
- cael eu dylunio fel pecyn cyson yn hytrach na chyfres o offerynnau statudol ar wahân.

Cam 3: Ymagwedd at gydsyniad: trafod ar sail pecyn polisi, nid fesul sefydliad

3.18 Gan ystyried nad yw'r Mesur yn rhagnodi proses ffurfiol ar gyfer cydsyniad, argymhellir mabwysiadu dull mwy strategol o ymgysylltu â Llywodraeth y DU. Yn hytrach na cheisio cydsyniad ar gyfer sefydliadau unigol, dylid:

- cyflwyno'r rheoliadau arfaethedig fel pecyn polisi cydlynol
- trafod eu cwmpas a'u heffaith ar lefel egwyddorol
- sicrhau cydsyniad mewn perthynas â'r categori perthnasol yn ei gyfanrwydd (h.y. Gweinidogion y Goron).

3.19 Byddai angen i'r dull hwn gael ei gefnogi gan ymgysylltu rhynglywodraethol strwythuredig. Yn ymarferol, byddai hyn yn debygol o gynnwys trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU er mwyn dod i

gytundeb ar gynnwys ac effaith y safonau arfaethedig. Er mwyn hwyluso'r trafodaethau hyn – ac yn benodol wrth ystyried nifer o sefydliadau'r Goron – argymhellir y dylid datblygu a chytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda swyddogion Llywodraeth y DU. Byddai hyn yn helpu:

- osgoi trafodaethau ailadroddus fesul adran
- sicrhau mwy o eglurder i randdeiliaid
- a chefnogi dull mwy rhagweithiol ac amserol o weithredu.

3.20 Mae'r gofyniad i sicrhau cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn gosod safonau ar Weinidogion y Goron yn cyflwyno ystyriaeth weithdrefnol a strategol bwysig o ran gweithredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y broses o ymestyn y gyfundrefn safonau i'r categori hwnnw o gyrff yn debygol o fod yn un sector-benodol ac aml-haenog, gan olygu ymgysylltiad â nifer o Ysgrifenyddion Gwladol unigol, o bosibl ar draws gwahanol feysydd polisi. Gallai hyn arwain at amrywiad o ran amserlenni, lefel ymgysylltu, a'r tebygolrwydd o sicrhau cydsyniad, gan ddibynnu ar flaenoriaethau a safbwyntiau'r adrannau perthnasol. Bydd ymgysylltu rhynglywodraethol cynnar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros y Gymraeg a'i swyddogion â swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU yn hanfodol. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo ei safbwynt a'i pholisi a'r rhesymau dros ddod â'r cyrff hyn o fewn cwmpas y safonau gyda swyddogion fydd yn gyfrifol am sicrhau cydsyniad yr Ysgrifenydd Gwladol perthnasol. Bydd hynny yn galluogi camu ymlaen i baratoi'r rheoliadau priodol.

Cam 4: Cynllunio ar sail gweithredu amodol

3.21 Dylid llunio'r rheoliadau ar y sail y gallent:

- fod yn gymwys yn llawn i sefydliadau lle nad oes angen cydsyniad
- dod i rym mewn perthynas â Gweinidogion y Goron yn amodol ar sicrhau cydsyniad.

3.22 Byddai gweithredu dull o'r math hwn yn galluogi cynnydd polisi heb oedi diangen, tra'n parchu'r gofynion statudol perthnasol. Wedi cymeradwyo'r rheoliadau, byddai'r mecanweithiau gweithredu statudol arferol yn galluogi'r Comisiynydd i osod a gorfodi'r safonau.

4 **Blaenoriaeth 2:** Ymestyn safonau'r Gymraeg i'r sectorau a restrir eisoes yn Atodlen 8 y Mesur, ond sydd heb eu cynnwys eto

4.1 O ran y sefydliadau sydd eisoes wedi'u rhestru yn Atodlenni'r Mesur (ac eithrio Gweinidogion y Goron), mae'r fframwaith statudol presennol yn darparu sail eglur i Weinidogion Cymru weithredu er mwyn eu cynnwys o fewn y gyfundrefn safonau.

Gan nad oes angen cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y categorïau hyn o sefydliadau, mae'r gallu deddfwriaethol eisoes yn bodoli. Felly, y prif ystyriaethau yw blaenoriaethu polisi, dylunio'r gyfundrefn, a sicrhau ei gweithrediad ymarferol effeithiol.

4.2 Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn sectorau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 8 y Mesur, megis trafnidiaeth a chyfleustodau, lle ceir rhyngweithio aml a rheolaidd rhwng y cyhoedd a darparwyr gwasanaethau. Yn achos trafnidiaeth, mae ymrwymiad polisi eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i ddod â'r sector i mewn i'r gyfundrefn safonau, ac mae gwaith paratoadol wedi'i wneud i gefnogi hynny. O ganlyniad, mae'r pwyslais bellach ar lunio rheoliadau sy'n cyd-fynd â'r dirwedd weithredol bresennol, yn hytrach nag ar y cwestiwn o weithredu ei hun.

4.3 Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i sefyllfa Trafnidiaeth Cymru, sydd eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan y rheoliadau safonau presennol (Rheoliadau Rhif 1). Mewn unrhyw drefniant newydd, dylid sicrhau nad yw newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio yn tanseilio'r dyletswyddau presennol na'r lefel o ddarpariaeth Gymraeg sydd eisoes wedi'i sicrhau. Yn unol ag egwyddorion y Mesur, dylai unrhyw reoliadau newydd sicrhau parhad neu gryfhau'r ddyletswydd, nid ei gwanhau.

4.4 Yn yr un modd, yn y sector cyfleustodau, mae darparwyr penodol – yn enwedig yn y sector dŵr a charthffosiaeth – eisoes wedi'u cynnwys o fewn y gyfundrefn safonau. Dengys profiad y sector hwn fod modd gweithredu safonau'r Gymraeg mewn maes gwasanaethau hanfodol mewn ffordd gymharol esmwyth ac effeithiol. Fodd bynnag, dylid nodi bod cwmnïau dŵr wedi bod, yn hanesyddol, yn gweithredu o dan gynlluniau iaith Gymraeg statudol, ac felly bod ganddynt eisoes lefel o aeddfedrwydd sefydliadol a phrofiad o gyflawni dyletswyddau iaith; nid yw hynny o reidrwydd yn wir ar draws sectorau preifat eraill.

4.5 Nodwn bod gwasanaethau megis darparwyr nwy a thrydan, a'r sector telathrebu yn gyfarwydd â gweithredu o dan fframweithiau rheoleiddio, gan gynnwys dyletswyddau sylweddol a chyfundrefnau gorfodi cadarn mewn meysydd eraill. Yn ogystal, mae enghreifftiau eisoes o ddarparwyr yn cynnig gwasanaethau Cymraeg ar sail wirfoddol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n afresymol, fel mater o egwyddor, ymestyn dyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg i'r sectorau hyn.

4.6 Wrth ystyried ymestyn y gyfundrefn i sectorau preifat, bydd angen gwaith polisi manwl i sicrhau bod y gofynion a osodir drwy reoliadau yn rhesymol ac yn gymesur i amgylchiadau'r darparwyr hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cynnal hygrededd ac effeithiolrwydd y broses gosod safonau, sydd hyd yma wedi bod yn gymharol sefydlog ac wedi osgoi nifer uchel o heriau gerbron Tribiwnlys y Gymraeg. Dylid felly geisio lliniaru'r risg o greu gofynion anghymesur a allai danseilio'r drefn honno.

4.7 Yn ogystal, cynghorwn Gweinidogion Cymru i ystyried y posibilrwydd o weithredu'r broses mewn camau, gan flaenoriaethu'r sectorau hynny lle ceir y rhyngweithio

mwyaf uniongyrchol â'r cyhoedd neu lle mae'r effaith bosibl ar hawliau siaradwyr Cymraeg yn fwyaf arwyddocaol. Gallai dull graddol o'r fath gynorthwyo i hwyluso gweithrediad effeithiol y gyfundrefn safonau, gan leihau'r risg o heriau cyfreithiol neu weithredol.

4.8 Yn gyffredinol, felly, er bod y llwybr deddfwriaethol ar gael yn glir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r sefydliadau hyn, bydd llwyddiant unrhyw estyniad pellach o'r gyfundrefn safonau yn dibynnu ar gynllunio gofalus ac ystyriol y rheoliadau.

5 **Blaenoriaeth 3:** Ymestyn safonau'r Gymraeg i'r sector preifat a chyrff nad ydynt wedi eu henwi yn atodlenni'r Mesur.

5.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r ymrwymiad a nodir yng nghynllun 100 diwrnod cyntaf y Llywodraeth i ymestyn cwmpas safonau'r Gymraeg i sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys archfarchnadoedd, banciau a meysydd parcio. Mae'r ymrwymiad hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ymestyn i feysydd gwasanaeth allweddol y tu hwnt i'r sector cyhoeddus traddodiadol, gan gryfhau profiad dinasyddion o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

5.2 Fodd bynnag, nid yw'r sectorau uchod wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn atodlenni'r Mesur, ac felly mae'r gallu presennol i Weinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas â hwy yn gyfyngedig. Er mwyn ymestyn y gyfundrefn safonau i'r sectorau hyn, byddai angen diwygio deddfwriaeth gynradd, a chynnwys hynny o fewn rhaglen ddeddfu'r Senedd.

5.3 Yn y cyd-destun hwn, byddai angen ystyriaeth ofalus i gwmpas a chynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur, gan gynnwys yr amserlen briodol ar gyfer deddfu a gweithredu. Pe bai diwygio deddfwriaeth gynradd yn cael ei ddilyn, byddai gan Gomisiynydd y Gymraeg gyngor pellach i'w roi i Weinidogion Cymru ar newidiadau ehangach i weithrediad y Mesur, er mwyn sicrhau bod y fframwaith cyffredinol yn parhau'n effeithiol, yn gydlynol ac yn addas i'r diben.

5.4 Fel y nodwyd uchod, mae rhai sefydliadau o fewn y sector preifat (megis banciau) yn gyfarwydd â gweithredu o dan fframweithiau rheoleiddio statudol cadarn. Ac yn yr un modd, mae enghreifftiau eisoes o ddarparwyr yn cynnig gwasanaethau Cymraeg ar sail wirfoddol gyda rhai wedi derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg gan y Comisiynydd. Ystyrir eto felly, nad yw'n afresymol, fel mater o egwyddor, ymestyn dyletswyddau statudol yn ymwneud â'r Gymraeg i'r sectorau hyn.

5.5 Serch hynny, bydd angen ystyried yn ofalus a yw'r pwerau gorfodi a ddarperir yn y Mesur ar hyn o bryd yn ddigon cadarn ac addas i'r diben, yn enwedig o ran eu gallu i sicrhau a sbarduno cydymffurfiaeth effeithiol ac amserol gan ddarparwyr gwasanaethau o'r math hwn.

6 Sicrhau adnoddau priodol i gefnogi ehangu ac ymestyn safonau'r Gymraeg

6.1 Er bod y Comisiynydd yn croesawu'r ymrwymiad i ehangu cwmpas y safonau, mae'n hanfodol cydnabod y goblygiadau sylweddol o ran adnoddau a chapasiti rheoleiddiol. Byddai cynnwys ystod ehangach o gyrff a sectorau o fewn y gyfundrefn safonau yn cynyddu'n sylweddol faint a chymhlethdod y gwaith sy'n gysylltiedig â gosod, monitro a gorfodi safonau. Byddai hyn yn cynnwys llunio hysbysiadau cydymffurfio newydd, ymgysylltu â sectorau newydd, a sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth effeithiol ar draws ystod ehangach o ddarparwyr gwasanaeth.

6.2 O ganlyniad, byddai angen ystyried yn ofalus y lefel briodol o adnoddau ychwanegol a'r capasiti sefydliadol sydd ei angen ar y Comisiynydd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol. Heb fuddsoddiad cyfatebol mewn adnoddau, mae perygl y gallai'r gallu i reoleiddio, monitro a gorfodi cydymffurfiaeth gael ei danseilio, gan leihau effaith y polisi a fwriedir. Felly, dylid ystyried y materion hyn ochr yn ochr ag unrhyw gynigion i ymestyn cwmpas y safonau, er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn parhau'n gadarn, effeithiol ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

7 Atodiad 1: Dosbarthiad sefydliadau yn ôl y gofyniad am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y gyfundrefn safonau

7.1 Mae'r tabl isod yn dangos detholiad o gyrff o wahanol fathau, gan wahaniaethu rhwng y rhai a fyddai'n ddarostyngedig i'r gofyniad am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a'r rhai na fyddai angen cydsyniad o'r fath ar eu cyfer.

7.2 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol annibynnol a dderbyniwyd gan y Comisiynydd. Nid yw'r rhestr o gyrff yn holl gynhwysol nac yn fwriadol gynhwysfawr, ond mae'n cynnwys enghreifftiau o rai o'r prif sefydliadau yr ydym yn gweithio gyda hwy ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn cynlluniau iaith, er mwyn dangos sut y gallai'r categorïau berthnasol gael eu cymhwyso yn ymarferol.

7.3 Er hynny, byddai angen ystyried trefniadau penodol pob corff er mwyn cadarnhau ei statws mewn unrhyw achos unigol.

7.4 Ar y sail honno, dealltwriaeth y Comisiynydd yw:

- bod paragraff 1 o Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod y cofnod sy'n ymwneud ag adrannau'r llywodraeth neu'r rhai sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron i'w drin ar wahân i Weinidogion y Goron; a
- dylid dehongli "Gweinidogion y Goron" yn unol â'r dehongliad a roddir i'r term hwnnw yn adran 8(1) Deddf Gweinidogion y Goron 1975 – hynny yw, ystyr "Gweinidog y Goron" yw deiliad swydd yn Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Trysorlys, y Bwrdd Masnach a'r Cyngor Amddiffyn).

7.5 Ar y sail hynny, safbwynt y Comisiynydd yw, er bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gweinidog y Goron a'i adrannau gweinidogol (yn unig) yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, nad yw'r cydsyniad yn ofynnol ar gyfer adrannau'r llywodraeth (gan gynnwys asiantaethau gweithredol) na'r rheiny sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron.

Corff	**Gweinidog y Goron** Angen cydsyniad yr Ysgrifenydd Gwladol	**Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron** Barn y Comisiynydd yw na fyddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni fyddai ychwaith angen enwi'r corff yn benodol yn Atodlen 6 y Mesur gan ei bod yn adran y llywodraeth	**Adran anweinidogol Llywodraeth y DU** Ni fyddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni chwaith fyddai angen enwi'r corff yn benodol yn Atodlen 6 y Mesur gan mai adran llywodraeth yw	**Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur** Ni fyddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni chwaith fyddai angen enwi'r corff yn benodol yn Atodlen 6 y Mesur gan mai adran llywodraeth yw.	**Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol** Gan nad yw'r fath gyrff fel arfer yn cael e hystyried yn "adran o lywodraeth, tebyg y byddai angen ychwanegu'r corff i atodlen 6 y Mesur drwy reoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddod a'r cyrff o dan y safonau (os nad ydynt eisoes wedi eu cynnwys)	**Arall** Bydd gallu Gweinidogion Cymru i gynnwys y fath gorff yn Atodlen 6 (ac felly i ddod a'r cyrff hyn o dan y gyfundrefn safonau) yn dibynnu yn union ar statws y corff ac os ydynt yn cael eu hystyried yn "awdurdod cyhoeddus" at ddiben atodlen 5 y Mesur
Swyddfa'r Cabinet	✓					
Awdurdod Ystadegau'r DU			✓ Noder fod y Bwrdd Ystadegau eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur			

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Swyddfa Ystadegau Gwladol			✓			
Adran Busnes a Masnach	✓					
Tŷ'r Cwmnïau		✓				
Swyddfa'r Post						✓
Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	✓					
Comisiwn Elusennau			✓ Noder fod y Comisiwn Elusennau eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.			

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Comisiwn Hapchwarae					✓ Noder fod y Comisiwn Hapchwarae eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur	
Adran Diogelwch ynni a Sero Net	✓					
OFGEM			✓			
Adran Amaeth, Bwyd a Materion Gwledig	✓					
OFWAT			✓			
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion		✓				

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Asiantaeth Taliadau Gwledig		✓				
Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth					✓	
Cyngor Defnyddwyr Dŵr					✓ Noder fod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur	
Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain						✓ Noder fod Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg	✓					
Swyddfa Eiddo Deallusol y DU		✓				
Arolwg Ordnans						✓
Adran Drafnidiaeth	✓					
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau		✓				
Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau		✓				
Comisiynwyr Traffig y DU						✓
Adran Gwaith a Phensiynau	✓					

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch				✓ Noder fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn arfer ei swyddogaethau ar ran y Goron – gweler adran 10 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974		
Gwasanaeth Arian a Phensiynau					✓	
Y Rheoleiddiwr Pensiynau					✓ Noder fod y Rheoleiddiwr Pensiynau eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.	

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Ombwdsmon Pensiynau						✓ Noder fod yr Ombwdsmon Pensiynau eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.
Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	✓					
Swyddfa Gartref	✓					
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd					✓	
Awdurdod y Diwydiant Diogelu					✓ Noder fod Awdurdod y Diwydiant Diogelu eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.	

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	✓					
Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	✓					
Cofrestrfa Tir EF			✓			
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	✓					
Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol		✓ Noder fod Yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol eisoes wedi ei gynnwys yn Atodlen 6 y Mesur.				

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF		✓				
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF		✓				
Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol		✓				
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus		✓				
Comisiwn Apwyntiadau Barnwrol					✓	
Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol					✓	
Y Bwrdd Parôl					✓	

Corff	Gweinidog y Goron	Asiantaeth weithredol Gweinidog y Goron	Adran anweinidogol Llywodraeth y DU	Corff sydd yn sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol	Arall
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid					✓	
Arolygiaeth Prawf EF						✓
Ombwdsmon Cyfreithiol						✓
Swyddfa Cymru	✓					
Gwasanaeth Erlyn y Goron			✓			
Asiantaeth Safonau Bwyd			✓			
Cyllid a Thollau EF (gan gynnwys Asiantaeth y Swyddfa Brisio ers Ebrill 2026)			✓			
Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I)		✓			✓	